# Cyngor Sir Ynys Môn

# Canllawiau Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd

# Fersiwn 1.0 Mawrth 2016

**Ynglŷn â'r polisi hwn**

Cyfeirir at y rheoliadau sy'n rheoli'r defnydd o sylweddau peryglus i iechyd yn y gwaith fel "Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002", fel y'i diwygiwyd.

Mae "sylwedd peryglus i iechyd" yn cyfeirio at unrhyw sylwedd (gan gynnwys cymysgedd) sydd:

a) wedi'i restru'n beryglus i'w gyflenwi yn Rheoliadau'r UE ar gyfer Gorfodi Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) ac mae'r Rheoliadau Dosbarthu, Labelu a Phecynnu (CLP) yn nodi terfyn uchaf o ran faint o'r sylwedd y gellir dod i gysylltiad ag ef, neu mae safon alwedigaethol wedi'i phennu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o ran faint o'r sylwedd y gellir dod i gysylltiad ag ef;
b) yn gyfrwng biolegol;
c) yn unrhyw fath o lwch/mygdarth sy'n bresennol mewn crynodiadau sylweddol yn yr aer;
d) yn unrhyw sylwedd arall na chyfeiriwyd ato yn a-d sy'n creu perygl i iechyd unrhyw un, y gellir ei gymharu â hynny yn sgil y sylweddau y cyfeirir atynt uchod.

Cefnogir y Polisi hwn gan adnoddau ar wefan y Cyngor.

**Hanes adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Mawrth 2015 | |
| 1.0 | Mai 2017 | Dim newidiadau |
| 1.0 | Mai 2019 | Dim newidiadau |
| 1.0 | Ionawr 2021 | Dim newidiadau |

| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | |
|---|---|
| Adolygir y polisi hwn ym: | Mawrth 2021 |
| Ymgymerir â'r adolygiad gan: | Y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol |

**Manylion Cysylltu:**

**Y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (healthandsafety@anglesey.gov.uk)**

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn mewn fformatau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cysylltu uchod os gwelwch yn dda.

# Cynnwys

## 1. Cyflwyniad

Cyfeirir at y rheoliadau sy’n rheoli’r defnydd o sylweddau peryglus i iechyd yn y gwaith fel “Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002”, fel y’i diwygiwyd.

Mae COSHH yn berthnasol i amrediad eang o sylweddau a pharatoadau (cymysgedd o ddau neu fwy o sylwaddau) sydd â’r potensial i achosi niwed i iechyd os ydynt yn cael eu llyncu, eu hanadlu neu’n cael eu hamsugno gan, neu dod i gysylltiad gyda’r croen neu bilenni eraill yn y corf. Gall sylweddau peryglus fod ar sawl ffurf gan gynnwys solet, anwedd, nwy a mygdarth. Gallant hefyd fod yn sylweddau biolegol syml neu’n sylweddau a all fygu.

Dylai cyflogwyr ystyried sylwedd fel un sy’n beryglus i iechyd os yw’n beryglus ar y ffurf y gellir dod ar ei draws yn y gweithle. Nid oes raid i sylwedd sy’n beryglus i iechyd fod yn gyfansoddyn cemegol, gall hefyd gynnwys cymysgedd o gyfansoddion, micro-organebau neu ddeunyddiau naturiol megis blawd, carreg neu lwch lli.

## 2. Dyletswyddau o dan y Rheoliadau

O dan y Rheoliadau hyn, mae gan gyflogwr ddyletswydd, cyn belled ag y bo’n rhesymol ymarferol, i sicrhau iechyd a diogelwch pawb sy’n gweithio o fewn ei eiddo, mae hyn yn cynnwys, yn ogystal â’i weithwyr ei hun, y rheiny sydd dan gytundeb i gyflawni gwaith o fewn ei eiddo ynghyd ag ymwelwyr â’r eiddo.

Dylai hyn gynnwys darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant perthnasol ar gyfer gweithwyr fel eu bod yn ymwybodol o sylweddau peryglus a’r rhagofalon y dylid eu cymryd er mwyn sicrhau nad ydynt yn agored iddynt mewn modd a allai achosi niwed iddynt.

Yn achos argyfwng, rhaid sicrhau bod holl aelodau’r gwasanaethau brys ar y safle yn ymwybodol o unrhyw sylwedd o fewn yr eiddo a all greu risg sylweddol i’w hiechyd.

Lle bo angen o dan y Rheoliadau hyn, bydd angen i rai gweithwyr fynychu archwiliadau meddygol ynghyd â rhoi gwybodaeth briodol mewn perthynas ag iechyd i feddyg penodedig neu ymgynghorydd meddygol y cyflogwr.

## 3. Mesurau Ataliol yn y Gweithle

Gellir lleihau’r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â sylwedd drwy:

- gynnal asesiad COSHH gan unigolyn **cymwys** – sef rhywun, p’un a ydynt yn weithiwr cyflogedig ai peidio, sydd wedi cael gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas;
- dileu’r sylwedd peryglus/a, neu os nad yw hyn yn bosibl, defnyddio rhywbeth arall yn ei le, sy’n llai niweidiol;
- darparu disbyddwr awyru lleol (‘local exhaust ventilation’) priodol os oes angen hyn, ynghyd â gwiriadau rheolaidd ar unrhyw offer o’r fath i sicrhau ei fod yn effeithlon ac yn effeithiol;

- darparu cyfleusterau storio addas a digonol ar gyfer y sylweddau peryglus sydd wedi'u labelu'n gyfatebol;
- sicrhau bod yr holl staff sy'n defnyddio'r sylweddau hyn yn cael hyfforddiant addas a digonol o ran sut i'w defnyddio'n ddiogel, a bod ganddynt fynediad at yr asesiadau COSHH perthnasol;
- darparu cyfleusterau hylendid digonol ar gyfer staff a sicrhau eu bod i gyd yn deall yr angen i olchi eu dwylo cyn bwyta, yfed ac ysmygu;
- darparu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE). Dylai hwn fod y dewis olaf ar ôl gweithredu bob dull rheoli arall.

## 4. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

Yn dilyn asesiad COSHH, os ceir bod angen PPE fel dewis olaf i amddiffyn staff sy'n defnyddio rhai sylweddau, rhaid dilyn y pwyntiau a ganlyn:

- canfod y math mwyaf addas a digonol o PPE;
- llunio a defnyddio cofrestr cyflenwi PPE;
- archwilio'r PPE – rhaid gwneud hyn gan yr unigolyn sy'n defnyddio'r PPE cyn ei ddefnyddio. Os ceir bod diffyg, ni ddylid defnyddio'r PPE a rhaid cael gwared ag ef i sicrhau nad oes unrhyw un arall yn ei ddefnyddio. Rhaid ymgymryd ag archwiliadau pellach yn rheolaidd i sicrhau bod y PPE yn gyflawn (dilynwch ganllawiau'r gwneuthurwr i bennu pa mor aml y mae angen ei archwilio).

Hyfforddi staff i sicrhau eu bod yn gwybod:

- pam y mae angen iddynt ddefnyddio'r PPE
- sut i ddefnyddio'r PPE
- lle i gael cyfarpar newydd pan fo angen.

## 5. Hyfforddiant

Dylai staff dderbyn y gall hyfforddiant chwarae rôl bwysig o ran sut i ddefnyddio sylweddau peryglus yn y gwaith. Yn ymarferol, ar y cyfan, bydd hyfforddiant yn codi ymwybyddiaeth gan hoelio sylw ar:

- beth ydyw sylweddau peryglus;
- sut i'w defnyddio'n ddiogel;
- sut i gynnal asesiad COSHH;
- lle i gael gwybod am asesiadau COSHH a sut i'w defnyddio;
- pa PPE y mae angen iddynt ei wisgo a pham, sut i'w ddefnyddio a lle i gael cyfarpar newydd;
- sut i ddefnyddio Disbyddwr Awyru Lleol (Local Exhaust Ventilation, LEV) neu unrhyw fathau o fesurau rheoli tebyg.

## 6. Canllawiau Asesu COSHH

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd, mae angen asesiad o'r sylweddau a ddefnyddir yn y gwaith sy'n beryglus i iechyd. Dylid

diweddaru'r asesiadau hyn yn rheolaidd a chynnal asesiad newydd ar gyfer bob sylwedd newydd a gyflwynir yn y gweithle.

- cael Taflenni Data Diogelwch ar gyfer bob sylwedd gan y gwneuthurwr.
- o'r taflenni data, dylid cael y wybodaeth angenrheidiol i gwblhau'r ffurflenni asesu COSHH.
- bydd y dyddiad adolygu fel arfer yn flwyddyn ar ôl yr asesiad cychwynnol. Os defnyddir sylwedd newydd yn y cyfamser, rhaid cynnal COSHH arno.
- o'r wybodaeth ar y daflen ddata, os ceir bod y sylwedd yn niweidiol, os yn bosibl, dylid dileu'r defnydd o'r sylwedd yn gyfan gwbl. Os nad yw hyn yn bosibl/ymarferol, yna dylid ceisio defnyddio un arall sy'n llai niweidiol, y bydd angen cynnal asesiad COSHH ar hwnnw hefyd.
- dylid sicrhau bod yr holl staff sy'n defnyddio'r sylweddau wedi darllen yr asesiad COSHH ac wedi arwyddo cofrestr i nodi eu bod wedi ei ddarllen a'i ddeall.
- dylid sicrhau bod copi o'r asesiad COSHH a'r Daflen Data Diogelwch ar gyfer bob sylwedd yn cael ei roi yn yr ystafell storio sylweddau wrth ymyl y sylwedd perthnasol fel bod aelod o staff yn gallu ei ddarllen cyn defnyddio'r sylwedd.

**Monitro Cysylltiad â Sylweddau yn y Gweithle**

Mae angen i'r cyflogwr fynd ati i fonitro unrhyw sylweddau yn y gweithle sy'n beryglus i iechyd, gan sicrhau, yn achos bod mesurau rheoli'n methu, na fydd unrhyw berygl o bwys i iechyd yn digwydd o ganlyniad i gysylltiad â'r sylweddau hyn.

Mae monitro hefyd yn asesu effeithlonrwydd unrhyw fesurau rheoli presennol ac yn amlygu materion sy'n destun pryder, y bydd angen cyflwyno mesurau rheoli newydd ar eu cyfer.

Rhaid cadw cofnod o unrhyw fonitro a wneir gan nodi:

- pryd y gwnaed y monitro;
- canlyniadau'r monitro;
- yn lle y gwnaed y monitro;
- pa fath o fonitro a wnaed ac am ba hyd;

- pa fath o broses gwaith oedd yn digwydd ar adeg y monitro;
- enw'r unigolyn, os oedd unigolyn yn cael ei fonitro.

Dylid cadw cofnod manwl o unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â sylweddau sy'n beryglus i iechyd, a dylid ei adolygu'n rheolaidd gan uwch reolwyr.

## 8. Cadw Golwg ar Iechyd

Mae angen i'r cyflogwr ymgymryd â hyn er mwyn sicrhau iechyd gweithwyr os ydynt, drwy gysylltiad â sylwedd/au yn y gwaith, yn cael afiechyd neu salwch adnabyddadwy a bod dull addas o ganfod yr afiechyd neu'r salwch.

Rhaid i'r Awdurdod gadw'r cofnodion hyn am ddeugain mlynedd o'r dyddiad y mae'r unigolyn yn terfynu ei gyflogaeth â'r Awdurdod.

Os rhoir rhybudd rhesymol, mae'n rhaid i'r cyflogwr ganiatáu i weithiwr weld y cofnodion iechyd sy'n berthnasol iddynt.

Dylid trefnu unrhyw arolygon iechyd drwy ymgynghori â'r Adran Adnoddau Dynol.

## 9. Dyletswyddau'r Gweithwyr

Ceir rhai camau penodol y dylai gweithwyr eu cymryd i sicrhau eu diogelwch eu hunain. Dylai pawb:

- roi ystyriaeth briodol i'w diogelwch eu hunain a'u cydweithwyr;
- cynefino eu hunain â pholisïau a gweithdrefnau, canllawiau a chyfarwyddiadau a gyflwynir gan y Cyngor;
- cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant sydd ar gael iddynt;
- adrodd i'w rheolwr llinell am bob achos lle nad yw rhywun yn teimlo'n dda wrth ddefnyddio neu ar ôl defnyddio sylweddau;
- cofnodi manylion achosion fel y bo angen gan y Cyngor;
- cyfrannu at unrhyw adolygiadau neu ymchwiliadau a gynhelir i achosion y buont yn gysylltiedig â hwy;
- defnyddio pob cymorth sydd ar gael gan staff ynghyd â chyfleusterau cymorth cyntaf a ddarperir gan y Cyngor

## Gwybodaeth Bellach

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar 01248 752820